Cyngor Castell-nedd Port Talbot
Neath Port Talbot Council

Cynllun Datblygu Lleol
Local Development Plan

# Cwestiynau Cyffredin
# Ymgynghoriad Cyn-adneuo (Strategaeth a Ffefrir)

Mae Cyngor Castell-nedd Port Talbot (CCNPT) yn paratoi Cynllun Datblygu Lleol Amnewid (CDLlA) ar gyfer y cyfnod 2023 – 2038. Pan gaiff ei fabwysiadu, bydd hwn yn disodli'r Cynllun Datblygu Lleol presennol. Bydd y CDLlA yn cynnwys polisïau a chynigion a fydd yn darparu ar gyfer anghenion a dyheadau datblygu’r awdurdod, yn ogystal â diogelu a gwella asedau cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol Castell-nedd Port Talbot.

## Ble ydyn ni arni nawr?

Mae CCNPT yng nghamau cynnar iawn paratoi'r CDLlA. Mae'r gwahanol gamau ac amserlenni wedi'u nodi isod:

| Cam Allweddol | Cam Paratoi CDLlA | Amserlen | Wedi’i gwblhau? |
|---|---|---|---|
| 1 | Cytundeb Cyflawni | Tachwedd 2023 | Ydy |
| 2 | Cyfranogiad / Paratoi’r cynllun Cyn-Adneuo (Rheoliad 14) | Tachwedd 2023 – Medi 2024 | Ydy |
| 2 | Galwad am Safleoedd Ymgeisiol | Tachwedd 2023 - Rhagfyr 2023 | Ydy |
| 3 | Ymgynghoriad Cyn-Adneuo (Strategaeth a Ffefrir) - (Rheoliad 15) | Tach 2024 – Rhag 2024 | Ar y gweill |
| 4 | Cyfranogiad / Paratoi’r cynllun Adneuo | Rhagfyr 2024 – Medi 2025 | |
| 5 | Ymgynghoriad ar y CDLlA Adneuo (Rheoliad 17) | Tach 2025 – Rhag 2025 | |
| 6 | Cyflwyno’r CDLlA i Lywodraeth Cymru i'w archwilio (Rheoliad 22) | Mehefin 2026 | |
| 7 | Archwiliad Annibynnol (Rheoliad 23) | Medi 2026 – Rhagfyr 2026 | |
| 8 | Derbyn a Chyhoeddi Adroddiad yr Arolygydd (Rheoliad 24) | Chwefror 2027 | |
| 9 | Mabwysiadu'r CDLlA (Rheoliad 25) | Ebrill 2027 | |

Mae'r camau a'r amserlenni hyn wedi'u nodi'n fanylach yn y Cytundeb Cyflawni a gyhoeddwyd. Am fwy o wybodaeth am y CDLlA ewch i wefan y Cyngor yn www.npt.gov.uk/cdlia/sf/



## Ymgynghoriad ar y Cynllun CDLlA Cyn-Adneuo (Strategaeth a Ffefrir)

Ym mis Mai 2024, gwnaethom ofyn am eich barn ar y Materion Allweddol, y Weledigaeth a'r Amcanion a'r opsiynau twf a'r opsiynau gofodol posib i'r CDLlA eu datblygu.

Mae'r adborth a dderbyniwyd gan ystod o bartïon â diddordeb wedi ein helpu i baratoi cynllun Cyn-Adneuo (Strategaeth a Ffefrir). Hoffem nawr i chi ddarparu sylwadau ar y Strategaeth a Ffefrir ac rydym yn gofyn am sylwadau ar y canlynol:

- Graddfa a lleoliad cartrefi, swyddi a chyflogaeth arfaethedig;
- Y safleoedd tai a chyflogaeth allweddol a nodwyd i gefnogi twf; ac
- Y polisïau strategol sy'n ffurfio'r fframwaith i gefnogi'r gwaith o gyflawni'r weledigaeth a'r amcanion drwy ddatblygiadau newydd.

## Ymgynghoriad ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig (ACI/ISA) Cychwynnol a'r Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC/HRA)

Mae deddfwriaeth yn ei gwneud yn ofynnol cynnal nifer o asesiadau technegol o'r strategaeth. Mae'r ACI Cychwynnol yn arfarnu'r posibiliadau o ran effeithiau cadarnhaol a negyddol yn erbyn fframwaith cynaliadwyedd. Mae'n bodloni'r gofynion ar gyfer:

- Arfarniad Cynaliadwyedd (AC/SA) ac Asesiad Amgylcheddol Strategol (AAS/SEA)
- Asesiad o'r Effaith ar Gydraddoldeb (EqIA/AEG)
- Asesiad o'r Effaith ar Iechyd (AEI/HIA)
- Asesiad o'r Effaith ar y Gymraeg (AEIG/WLIA)
- Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (WBFG)

Mae'r ARhC yn asesiad o effeithiau posib ar safleoedd Ewropeaidd gwarchodedig.

Mae Adroddiad ACI Cychwynnol ac Adroddiad Sgrinio ARhC ar gael at ddibenion cynnig sylwadau a gellir eu gweld ochr yn ochr â'r Strategaeth a Ffefrir.

## Ymgynghoriad ar y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol

Yn unol â Chytundeb Cyflawni cymeradwy'r Cyngor, gwahoddwyd tirfeddianwyr, datblygwyr a phartïon eraill â diddordeb i enwebu 'Safleoedd Ymgeisiol' i'w cynnwys o bosib yn y CDLlA sy'n dod i'r amlwg. Cynhaliwyd 'Galwad am Safleoedd' gychwynnol (GaS) yn 2022. Yng ngoleuni canfyddiadau rhagarweiniol y GaS hon, ochr yn ochr â gwybodaeth a gafwyd o'n Hadroddiadau Monitro Blynyddol a'n rhagamcanion twf, nodwyd bod gofyn i dir tai ychwanegol gael ei nodi yn ogystal â materion seilwaith a dichonoldeb presennol. Cynhaliwyd GaS ddilynol ym mis Tachwedd 2023. Mae'r Cyngor hefyd wedi cynnal Astudiaeth Capasiti Trefol.

Er mwyn atgyfnerthu'r rhain i gyd, mae'r Cyngor wedi paratoi Cofrestr Safleoedd Ymgeisiol (CSY) sy'n gofnod o'r safleoedd a gyflwynwyd i'r Cyngor. Mae'r CSY wedi'i chyhoeddi ochr yn ochr â'r Strategaeth a Ffefrir a gall partïon â diddordeb gynnig sylwadau ar y safleoedd a gynigiwyd i'r Cyngor. Bydd y sylwadau hyn yn llywio camau nesaf asesu'r safleoedd hyn.

Gellir cynnig Safleoedd Ymgeisiol newydd ar yr adeg hon hefyd.

## Sut gallwch chi gysylltu?

Gallwch weld y dogfennau ymgynghori a'r dystiolaeth ategol ar-lein ( https://beta.npt.gov.uk/cdlln/saff/) neu yn bersonol yng Nghanolfannau Dinesig Castell-nedd a Phort Talbot, a'r Ceiau.



Bydd yr ymgynghoriad yn fyw am 8 **wythnos o hanner dydd 12 Rhagfyr 2024 i hanner dydd 6 Chwefror 2025**. Bydd sylwadau a dderbynnir yn cael eu defnyddio i lywio'r gwaith o baratoi'r cynllun Adneuo neu 'ddrafft llawn' y CDLlA. I ymateb i'r ymgynghoriad, gallwch:

- Ddefnyddio ein porth Ymgynghori ar y CDLl ar-lein (https://neath-porttalbot-consult.objective.co.uk/kse/)
- Postio eich sylwadau atom yn **yr Adran Polisi Cynllunio, Y Ceiau, Ffordd Brunel, Castell-nedd SA11 2GG**

Os oes gennych unrhyw ymholiadau neu os hoffech glywed am ymgynghoriadau CDLlA yn y dyfodol, cysylltwch â thîm y CDLl drwy
E-bost – LDP@npt.gov.uk
Ffôn – 01639 686821

## Beth yw'r Cynllun Datblygu Lleol Amnewid (CDLlA)?

Mae'r CDLlA yn ddogfen bwysig a fydd yn cynnwys polisïau a chynigion i arwain newid defnydd tir yng Nghastell-nedd Port Talbot dros y cyfnod 2023 i 2038.

Mae'r CDLlA yn cael ei baratoi yn unol â'r Cytundeb Cyflawni Cymeradwy.
Y nod yw mabwysiadu'r CDLlA yng Ngwanwyn 2027.

## Sut mae'r CDLlA yn cael ei baratoi?

Mae'r CDLlA yn cael ei baratoi gan yr Awdurdod Cynllunio Lleol. Mae nifer o gamau ynghlwm wrth baratoi'r Cynllun ynghyd â gwahanol gamau ymgynghori a chynnwys pobl wrth ei baratoi.

Cyn dechrau gweithio ar y CDLlA, gwnaethom lunio Cytundeb Cyflawni sy'n nodi amserlen y CDLlA a phryd a sut y gallai pobl gymryd rhan.

Yn ystod y gwaith o baratoi'r CDLlA, byddwn yn adeiladu sylfaen dystiolaeth i lywio ac ategu’r Cynllun.

## Sut mae hyn yn wahanol i'r CDLl?

Yn debyg i'r Cynllun Datblygu Lleol a fabwysiadwyd ar gyfer 2011-2026 (CDLl), bydd y CDLlA yn darparu ar gyfer anghenion a dyheadau datblygu CNPT yn ogystal â diogelu a gwella asedau cymdeithasol, diwylliannol ac amgylcheddol CNPT. Fodd bynnag, mae'r CDLl presennol yn cwmpasu amserlen o 15 mlynedd rhwng 2011-2026 ac am hynny, bydd y CDLlA yn gosod ei orwelion y tu hwnt i hyn, i'r 10 mlynedd nesaf.

Dilynodd y gwaith o baratoi'r CDLl a fabwysiadwyd broses debyg.

## Beth yw'r Strategaeth a Ffefrir?

Nid drafft llawn y CDLlA yw’r ddogfen ymgynghori ar y Strategaeth a Ffefrir ond mae'n cynnwys rhai o agweddau allweddol y CDLlA arfaethedig. Pwrpas ymgynghori ar Strategaeth a Ffefrir yw creu consenswss ar rai o agweddau allweddol y CDLlA a galluogi partïon â diddordeb i roi adborth ar y rhain cyn paratoi'r cynllun drafft llawn, sef y Cynllun Adneuo.

I grynhoi, mae'r Strategaeth a Ffefrir yn cynnig bod y CDLlA yn darparu ar gyfer 4,176 o gartrefi (gan gynnwys lwfans hyblygrwydd o 20%) (278 y flwyddyn) i ddiwallu angen am 3,480 o gartrefi a 3,555 o swyddi a darparu ar gyfer 57Ha o dir cyflogaeth. Bydd rhai dyraniadau ac ymrwymiadau presennol yn cefnogi cyflawni hyn, ochr yn ochr â safleoedd tai a chyflogaeth allweddol newydd ar draws Coridor yr Arfordir a'r Ardal Twf Cenedlaethol. Yn ogystal, nodwyd 18 o bolisïau strategol i gefnogi'r gwaith o gyflawni strategaeth, gweledigaeth ac amcanion y CDLlA.

## Pryd a ble gallaf weld y dogfennau?

Bydd yr ymgynghoriad ar waith am **8 wythnos o hanner dydd 12 Rhagfyr 2024 i hanner dydd 6 Chwefror 2025.**



Yn ystod y cyfnod hwn, byddwch yn gallu gweld y dogfennau ymgynghori a'r dystiolaeth ategol yng Nghanolfannau Dinesig Castell-nedd a Phort Talbot, yn ogystal â'r Ceiau, Ffordd Brunel neu ar-lein trwy ein Porth Ymgynghori ar y CDLlA (https://neath-porttalbot-consult.objective.co.uk/kse/) neu yn https://beta.npt.gov.uk/cdlln/saff/. Ymhlith y rhain mae fersiwn Hawdd ei Ddeall, sy'n darparu fersiwn byrrach a symlach o'r brif ddogfen ymgynghori ar y Strategaeth a Ffefrir.

Bydd y Cyngor yn cynnal digwyddiad ymgysylltu ar-lein yn ogystal â sesiynau galw heibio yn ystod y cyfnod ymgynghori. Mae'r rhain wedi'u rhestru isod:
Rhithiol / ar-lein - Dydd Mawrth 21 Ionawr 2025 – cyflwyniad a chwestiynau - rhwng 10am a 12pm (hanner dydd);
Llyfrgell Pontardawe - Dydd Mercher 22 Ionawr 2025 rhwng 10am a 1pm;
Canolfan Ddinesig Castell-nedd – Dydd Mercher 22 Ionawr 2025 rhwng 3pm a 6pm;
Llyfrgell Port Talbot – Dydd Iau 23 Ionawr 2025 rhwng 9.30am a 12.30pm; a
Llyfrgell Glyn-nedd – Dydd Iau 23 Ionawr 2025 rhwng 2.30pm a 5.30pm.

Os hoffech fynychu'r sesiwn ymgysylltu ar-lein, rhowch wybod i ni drwy e-bostio ni yn ldp@npt.gov.uk erbyn 15 Ionawr 2025 fanbellaf. A wnewch chi hefyd roi gwybod i ni a fydd angen gwasanaeth cyfieithu ar y pryd arnoch chi. Nid oes angen cadw lle ymlaen llaw ar gyfer y sesiynau eraill; cewch alw heibio a bydd rhywun o'r tîm ar gael i helpu i ateb unrhyw gwestiynau.

## Sut galla i gynnig sylwadau?

Gallwch gynnig sylwadau yn ysgrifenedig, yn Gymraeg neu Saesneg, i'r Cyngor yn ystod y cyfnod ymgynghori 8 wythnos. Dylid cyflwyno sylwadau ar-lein gan ddefnyddio ein porth Ymgynghori ar y CDLl (https://neath-porttalbot-consult.objective.co.uk/kse/), neu drwy gwblhau'r ffurflen sylwadau berthnasol (ar gael ar-lein yn https://beta.npt.gov.uk/cdlln/saff/).

Gellir anfon y ffurflenni hyn at:
ldp@npt.gov.uk neu Yr Adran Polisi Cynllunio, Y Ceiau, Ffordd Brunel, Castell-nedd SA11 2GG

Bydd sylwadau a dderbynnir ar ôl hanner dydd ar 6 Chwefror 2025 yn cael eu trin fel rhai hwyr ac ni fyddant yn cael eu hystyried ymhellach.

Rydym yn argymell eich bod yn defnyddio'r ffurflen sylwadau ar-lein i ateb cwestiynau'r ymgynghoriad. Cofiwch, os na fyddwch yn defnyddio'r ffurflen, gallem roi eich sylw wrth ymyl y cwestiwn mwyaf perthnasol wrth brosesu a dadansoddi eich sylwadau.

## Ar beth y gallaf gynnig sylwadau?

Y dogfennau rydym yn croesawu eich sylwadau arnynt yw:

- Dogfen Ymgynghori ar Gynllun Cyn-Adneuo y CDLlA (Strategaeth a Ffefrir);
- Cofrestr Safle Ymgeisiol (CSY);
- Adroddiad ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig Cychwynnol (ACI); ac
- Adroddiad Sgrinio Cam 1 yr Asesiad Rheoliadau Cynefinoedd (ARhC).

Cyhoeddwyd nifer o ddogfennau ategol hefyd i gefnogi'r ymgynghoriad ac amlinellu'r dystiolaeth y mae'r Cyngor wedi'i hystyried wrth baratoi'r Strategaeth a Ffefrir.

## A gaf fi gynnig sylwadau ar Safle Ymgeisiol?

Cewch. Mae'r Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol (CSY) wedi'i chyhoeddi ochr yn ochr â'r Strategaeth a Ffefrir. Cewch gynnig sylwadau i gefnogi neu wrthwynebu'r safleoedd hyn. Mae Methodoleg Safleoedd Ymgeisiol a'r Adroddiad ar yr Arfarniad Cynaliadwyedd Integredig Cychwynnol yn amlinellu sut y bydd y Cyngor yn asesu'r safleoedd hyn ac efallai y bydd yn ddefnyddiol i chi gyfeirio at hyn wrth baratoi eich sylwadau.



## A yw Safleoedd Ymgeisiol yn cael eu dyrannu gan y Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol?

Nac ydyn. Mae'r Gofrestr Safleoedd Ymgeisiol (CSY) yn gofnod yn unig o'r safleoedd a awgrymwyd i'r Cyngor i'w diogelu neu eu datblygu. Ar yr adeg hon, mae'n amlinellu'r casgliadau yn sgil asesiad Cam 1 a chrynodeb o asesiad manwl Cam 2.

Nid yw'r CSY ei hun yn dyrannu tir i'w ddatblygu nac yn dynodi tir i'w ddiogelu; dim ond cynllun datblygu sydd wedi'i fabwysiadu sy'n gallu gwneud hyn. Bydd y CDLlA yn cynnwys cynigion yn gysylltiedig â thir a nodwyd yn y CSY i'w ddiogelu neu ei ddatblygu yn dilyn y prosesau asesu priodol.

## Ar beth y dylwn i gynnig sylwadau?

Mae'r Strategaeth a Ffefrir a chamau paratoi cynllun Adneuo CDLlA yn rhoi cyfle i bartïon â diddordeb gynnig sylwadau ar y polisïau a'r safleoedd a gynigir.

Gallwch hefyd gyflwyno sylw yn gofyn am welliant i ffin safle arfaethedig, neu gynnig dileu neu ychwanegu safleoedd newydd.

Dylai'r holl sylwadau a gynigir gael eu cefnogi gan resymeg gynllunio.

## A fydd pobl yn gallu gweld fy sylwadau?

Er mwyn dangos bod yr ymgynghoriad wedi'i gynnal yn iawn, mae'r Cyngor yn bwriadu cyhoeddi'r ymatebion i'r ymgynghoriad hwn. Bydd enw'r person neu'r sefydliad a anfonodd yr ymateb yn cael ei gyhoeddi gyda'r ymateb. Am hynny, ni allwn dderbyn sylwadau dienw.

Bydd gwybodaeth yn cael ei chadw a'i chyhoeddi yn unol â Hysbysiad Preifatrwydd Polisi Cynllunio Cyngor CNPT (https://beta.npt.gov.uk/cy/system/telerau-ac-amodau/datganiad-preifatrwydd/ysbysiadau-preifatrwydd-gwasanaeth-penodol/datganiad-preifatrwydd-cynllunio-a-gwarchod-y-cyhoedd/)

## Sut bydd fy sylwadau'n cael eu defnyddio?

Bydd sylwadau a dderbynnir yn cael eu hystyried yn sylwadau ffurfiol i'r Strategaeth a Ffefrir neu ddogfennau eraill sy'n destun ymgynghori, gan hysbysu cynnwys y Cynllun drafft llawn / Cynllun Adneuo. Bydd y Cyngor yn ystyried ac yn dadansoddi'r sylwadau a gynigir ac yn cyhoeddi ymatebion i'r rhain lle bo hynny'n briodol. Bydd sylwadau ar Safleoedd Ymgeisiol yn llywio'r broses asesu fanwl.

## Beth sy'n digwydd nesaf?

Y cam nesaf yn y broses o baratoi'r cynllun fydd y cam 'Adneuo' pan fydd y CDLlA Adneuo yn destun ymgynghori, a gofynnir am sylwadau pellach.

Ar hyn o bryd, rhagwelir y bydd hyn yn digwydd yn ystod gaeaf 2025.

